**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

**Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**10:00 yb, 26 Ionawr 2018**

**Glyder Fawr, Penrallt, Caernarfon**

**Presennol:**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Richard Dew
Cyng. John Griffith
Cyng. Robin Williams

**Cyngor Gwynedd**
Cyng. Dafydd Meurig
Cyng. Owain Williams
Cyng. Siân Wyn Hughes
Cyng. Berwyn Parry Jones

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Nia Haf Davies | Rheolwr - UPCC |
| Dewi Francis Jones | Prif Swyddog Cynllunio (CSYM) |
| Gareth Jones | Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (CG) |

**Ymddiheuriadau:**

Cyng. John Pughe Roberts (CG)
Cyng. Nicola Roberts (CSYM)
Cyng. Catrin Wager (CG)
Cyng. John Brynmor Hughes (CG)
Cyng. Kenneth P. Hughes (CSYM)
Dylan Williams, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (CSYM)

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**
Ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

**3. MATERION BRYS**
Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion Pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2017 fel y rhai cywir.

## 5. CYFRANOGIAD CYHOEDDUS AM Y CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL CYFREDOL AM GYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG

Cafwyd cyflwyniad gan Nia Haf Davies yn esbonio bod yr Uned Polisi Cynllunio wedi cysylltu gyda 137 o unigolion a mudiadau yn ystod Mehefin – Awst 2016 i gael barn am y Canllawiau Cynllunio Atodol cyfredol am gynllunio a'r iaith Gymraeg. Yn ogystal â hynny, fe gysylltwyd gydag holl Awdurdodau Cynllunio yng Nghymru i gasglu gwybodaeth am ganllawiau oedd ganddynt. Nodwyd mai hwn oedd un o'r camau cyntaf i baratoi'r Canllaw newydd a fyddai'n cefnogi Polisïau y Cynllun Datblygu Lleol. Darparwyd holiadur i'r unigolion a mudiadau a holiadur i'r Awdurdodau Cynllunio. Derbyniwyd 8 ymateb i'r holiadur am y Canllaw cyfredol a nodwyd bod 14 o'r 25 Awdurdod Cynllunio wedi ymateb.

Nodwyd mai dyma oedd y prif negeseuon am y Canllaw cyfredol:

- Angen arweiniad clir am sut i gwblhau asesiadau
- Bod yn glir ynglŷn â pherthnasedd cwestiynau
- Bod yn glir ynglyn â pha ddatblygiad sydd angen bod yn destun asesiad
- Bod angen ail-ystyried y system sgorio
- Bod angen ystod o dystiolaeth
- Bod angen cofio am ardrawiad cronnus datblygiadau
- Dylid asesu ardrawiad datblygiad mewn ardaloedd ymhellach oddi wrth safle'r datblygiad
- Dylid disodli Datganiad Iaith gydag Asesiadau Ardrawiad Ieithyddol.

O ran ymarfer mewn ardaloedd eraill, nodwyd bod agwedd Awdurdodau i ddatblygu a'r iaith Gymraeg yn wahanol ond bod gwersi i'w dysgu lle cafwyd canllawiau wedi cael eu mabwysiadu.

Materion a godwyd:

- Mynegwyd siomedigaeth nad oedd mwy o unigolion a mudiadau wedi cymryd mantais o'r cyfle i wneud sylwadau am y Canllawiau cyfredol yn enwedig oherwydd bod cymaint o ddiddordeb wedi cael ei ddangos yn y maes yn ystod cyfnod paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol;
- Pwy oedd wedi ymateb – a gafwyd traws-doriad?
- Awgrymu gallai defnyddio cyfryngau cymdeithasol hwyluso'r gwaith o godi ymwybyddiaeth am gyfnodau ymgysylltu ac arwain at fwy o ymatebion.
- Awgrymwyd defnyddio holiadur ar lein, e.e. Survey Monkey, i gael unigolion i ymateb. Pobl wedi arfer defnyddio teclynnau fel yma erbyn rŵan.

Ymateb:

- Nodwyd y cafwyd ymateb gan 4 Cyngor Cymuned, 2 fudiad lleol, 1 ymgynghorydd cynllunio lleol ac 1 unigolyn.
- Cafodd unigolion a mudiadau penodol eu targedu yn achos y gwaith ymgysylltu yma, ond cytunwyd bod angen sicrhau byddai unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus yn gwneud defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a bod holiadur ar lein yn cael ei ddarparu er mwyn hwyluso'r gwaith o lunio ymateb.

Penderfyniad:

Nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 6. CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYNNAL A CHREU CYMUNEDAU NODEDIG A CHYNALIADWY – DRAFFT CYNTAF – CYFRINACHOL – DIM I'W GYLCHREDEG

Cafwyd cyflwyniad gan Nia Haf Davies oedd yn nodi bod y Canllaw yma yn un o gyfres o Ganllawiau mae'r Awdurdodau wedi ymrwymo i'w paratoi er mwyn cefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Nodwyd yr angen cadw mewn cof bod rhaid i'r Canllaw fod yn gyson gyda'r polisïau perthnasol yn y cynllun Datblygu Lleol ac nad rôl y Canllaw ydi creu polisïau newydd. Rhoddwyd amlinelliad o strwythur arfaethedig y Canllaw, gan nodi mai pwrpas yr eitem yma heddiw oedd cyflwyno:

- Drafft cyntaf o gorff y Canllaw, ac
- Atodiad 2, 5, 6 & 7.

Rhoddwyd amlinelliad o'r camau a oedd angen eu cymryd a'r amserlen ar gyfer cwblhau'r camau. Nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi penderfynu sefydlu Gweithgor Craffu a fyddai'n adrodd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a bod angen cyflwyno gwybodaeth am y Canllaw i Uwch Dim Arweinyddiaeth Cyngor Sir Ynys Mon.

O ran corff y Canllaw arfaethedig nodwyd bod y Canllaw yn wahanol iawn i'r Canllaw cyfredol ac mai'r bwriad oedd cyflwyno arweiniad ynddo a fyddai'n gadarn, trylwyr a chynhwysol. Dyma'r agweddau tynnwyd sylw iddynt:

- Bod Adran 1 o'r Canllaw yn dod a theulu o bolisïau at ei gilydd er mwyn amlygu sut all datblygiad yn ardal y Cynllun fod yn cyfrannu i gynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy;
- Bod gwybodaeth yn Adran 1 i'r dystiolaeth a fyddai angen ei gyflwyno gyda cheisiadau cynllunio perthnasol;
- Bod Adran 1 yn tynnu sylw at berthnasedd yr iaith Gymraeg i wahanol fathau o ddatblygiad;
- Mai Polisi PS 1 sy'n rhoi arweiniad manwl am ddisgwyliadau'r Cynllun am ddatblygu a'r iaith Gymraeg;
- Mae Polisi PS 1 yn gosod meini prawf ynglŷn â phryd fyddai angen Datganiad Iaith Gymraeg a phryd fyddai angen adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg;
- Bod Polisi PS 1 yn gofyn am ystyriaeth i'r Gymraeg yn achos sawl math o ddatblygiad;
- Pwysigrwydd ymgysylltu gyda Swyddogion Cynllunio i gael sicrwydd o'r angen am dystiolaeth i gefnogi'r cais cynllunio ac felly bod y cyfnod cyn cyflwyno cais cynllunio yn bwysig iawn;
- Pwysigrwydd ymgysylltu gyda budd-ddeiliaid i gael dealltwriaeth o'r gymuned hyd yn oed os ydi'r datblygiad yn disgyn o dan y trothwy a roddir yn y rheoliadau cynllunio;
- Bod angen sgrinio datblygiad i weld os ydi o'n cwrdd â meini prawf 1 a 2 Polisi PS 1 ac i weld sut all fewnblannu mesurau a fyddai'n fuddiol i gymunedau lleol hyd yn oed os nad ydi datblygiad yn cwrdd â'r meini prawf;
- Bod angen cefnogaeth gan unigolyn cymwys i baratoi Asesiad Effaith Iaith Gymraeg ac ystyried cael cefnogaeth unigolyn cymwys wrth ymgymryd a gwaith i baratoi Datganiad Iaith Gymraeg;
- Bod tabl 5 yn disgrifio rhinweddau unigolyn cymwys;
- Bod 'datblygiad mawr' ar 'safle ar hap annisgwyl' yn cael ei ddiffinio;

- Mewn achosion anghydfod rhwng y Swyddog Cynllunio/ swyddogion cymwys o fewn y Cynghorau a'r ymgeisydd ynglŷn â'r dystiolaeth a gyflwynwyd, byddai unigolyn cymwys annibynnol yn cael ei benodi gyda'r ymgeisydd yn talu am ei wasanaeth.
- Atodiad 2 – yn rhoi gwybodaeth am ystod o ffynonellau data a gwybodaeth;
- Atodiad 5 – yn rhoi darlun o'r broses sgrinio datblygiad ac yn adnabod arfer da ellir eu rheoli gan y system gynllunio i'w ystyried wrth lunio datblygiad sy'n disgyn o dan y trothwyon Polisi;
- Atodiad 6 - yn rhoi rhestr gychwynnol o weithgareddau a ellir eu defnyddio i liniaru neu wella budd datblygiad;
- Atodiad 7 – yn rhoi fframwaith glir ar gyfer gwaith yn gysylltiedig a pharatoi Datganiad Iaith Gymraeg.

Materion a godwyd:

- Bod Cyngor Sir Ynys Môn yn ymgynghori ar hyn o bryd am Ganllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Wylfa Newydd - sut gellir sicrhau bod cysondeb rhwng hwn a Chanllaw arall a sut ellir sicrhau bod ystyriaeth wirioneddol yn cael ei roi iddo;
- Bod barn yr Uwch Dim Arweinyddiaeth yn bwysig;
- Nodwyd bydd Gweithgor a Phwyllgor Craffu yn cael cyfle i fynegi barn am y Canllaw – sut mae hynny'n plethu gyda gwaith y Panel a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd;
- Diagram 3 a 4 – ystyried newid trefn y blychau;
- Diagram 4 – pa mor aml fyddai Astudiaeth Marchnad Tai Lleol yn cael ei gynnal ac felly pa mor ymarferol ydi dibynnu arno fel ffynhonnell wybodaeth;
- Diagram 4 mae prawf 1b - a fydd ystyriaeth yn cael ei roi i dai sydd efo caniatâd yn ogystal â thai a ddarparwyd yn barod;
- All safle ar hap fod yn un du mewn i'r ffin datblygu?
- Nodwyd bod y Canllaw yn dweud bod yr egwyddor o ddatblygu wedi cael ei sefydlu yn y Cynllun, ydi hynny yn golygu na fyddai angen tystiolaeth i gefnogi datblygiad ar safleoedd a ddynodwyd neu a warchodwyd?
- Holwyd ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng y diffiniad o 'ddatblygiad mawr' yn D11 a'r cyfeiriad yn y Polisi at safle ar gyfer 5 neu fwy uned a chyfeiriad yn nes ymlaen yn y Canllaw at ddatblygiad o 5 uned fel 'datblygiad mawr' mewn Pentrefi;
- Tabl 5 - person cymwys - awgrymwyd bod angen cryfhau'r testun er mwyn rhoi arweiniad mwy pendant, - 'dylech ystyried y canlynol' yn lle' efallai byddwch yn dymuno ystyried y canlynol'; 'dylech ystyried defnyddio' yn lle 'efallai byddwch yn dymuno ystyried..'; a 'Bydd ymgynghorwyr â gwybodaeth leol...' yn lle 'Gall ymgynghorwyr â gwybodaeth leol..'. Bod angen sicrhau bod y testun mewn mannau eraill yn fwy pendant ynglyn â'r disgwyliadau;
- A fyddai'n bosib cyhoeddi rhestr o bobl cymwys er gwybodaeth a chynorthwyo ymgeiswyr i adnabod rhywun i'w cynghori;
- A oedd risg i ymgeisydd neu gyfres o ymgeiswyr roi ceisiadau i mewn ar gyfer llai na 10 uned mewn Canolfannau neu lai na 5 uned mewn Pentrefi ar safleoedd ar hap annisgwyl er mwyn osgoi ymgymryd ag Asesiadau Effaith Iaith Gymraeg? Oes yna risg o fethu ystyried effaith gronnol datblygiad?
- Atodiad 2 – gall mwy o ffynonellau data a gwybodaeth ddod i'r amlwg yn ystod cyfnod y Cynllun. Dylid gwneud yn glir bod disgwyl i ymgeisydd edrych am ffynonellau a fydd yn gyfredol adeg paratoi y cais cynllunio nid dibynnu yn unig ar y rhestr yn Atodiad 2;
- Atodiad 7 – beth olygir gyda 'denu pobl'?
- Atodiad 7 – bod y fframwaith yn llawer mwy trylwyr na'r un cyfredol;
- Bod enwau llefydd yn bwysig ac angen cymaint o anogaeth ag sy'n bosib sicrhau bod enwau Cymraeg yn cael eu cadw a bod enwau Cymraeg newydd priodol yn cael eu defnyddio.

Ymatebion:

- Mae'r Ganllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Wylfa Newydd wedi cael ei baratoi i gefnogi polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol Canllaw, ac mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn rhan o'r grŵp sydd wedi llywio'r gwaith o'i baratoi. Ar y cyd mae hynny'n sicrhau cysondeb. Pan gaiff ei fabwysiadu fe fydd yn ystyriaeth cynllunio berthnasol a fydd yn cario pwysau;
- Mae trefniadau'n cael eu gwneud i gynnwys gwybodaeth am y Canllaw Cynllunio Atodol Cynnal a Chreu cymunedau Nodedig a Chynaliadwy ar raglen cyfarfod yr Uwch Dim Arweinyddiaeth ym mis Chwefror;
- Bydd argymhellion y Gweithgor/ Pwyllgor Craffu, yn ogystal â'r Uwch Dim Arweinyddiaeth, yn cael eu cyflwyno i'r Panel/ Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i'w hystyried. Rôl y Panel fydd cefnogi rhyddhau fersiwn drafft ymgynghorol o'r Canllaw a rôl y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd fydd mabwysiadu'r Canllaw yma ac unrhyw Ganllaw arall a fydd yn gyffredin i'r ddau Awdurdod;
- Nodi'r sylw am drefn y blychau yn Niagram 3 & 4;
- Cytunwyd nad oedd cyfeiriad at Astudiaeth Marchnad Tai Lleol yn rhoi darlun cyflawn o'r wybodaeth a ddylid rhoi sylw iddo. Cyfeiriwyd at astudiaethau gan hwyluswyr tai gwledig, cofrestr tai cymdeithasol, Cofrestr Tai Teg fel ffynonellau eraill;
- Rhoddwyd cadarnhad byddai tai a godwyd yn barod a thai efo caniatâd ond heb eu cwblhau neu heb eu dechrau yn cael eu cyfrif yn yr hafaliad i benderfynu os ydi datblygiad yn myned tu hwnt i'r cyflenwad dangosol osodwyd yn y polisïau perthnasol;
- Gall y Polisi fod yn berthnasol i safleoedd ar hap du mewn i ffiniau os ydi'r safle yn un ar hap annisgwyl, h.y. nad oedd yn hysbys adeg paratoi'r Cynllun, neu yn safle ar hap a oedd yn hysbys os ydi maen prawf 1b neu 1c yn berthnasol;
- Gall y Polisi fod yn berthnasol i safle a ddynodwyd ar gyfer tai neu safle sy'n cael ei warchod ar gyfer cyflogaeth os ydi'r datblygiad yn cwrdd efo maen prawf 1 a – c;
- Nodwyd bod D.11 yn cyfeirio at y diffiniad a roddir yn y Rheoliadau Cynllunio o ran pryd fydd rhaid ymgynghori yn gyhoeddus ynglyn â datblygiadau cyn cyflwyno cais cynllunio. 'Roedd y Siart Lif yn D15 yn cyfeirio at bryd fyddai angen Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. Cytunwyd bod angen egluro'r gwahaniaeth yn well;
- Tabl 5 – cytuno i wneud y newidiadau a awgrymwyd a sicrhau bod testun mewn mannau perthnasol eraill yn fwy pendant;
- Nodwyd bod risgiau wrth ddarparu rhestr hyd yn oed os ydi o er gwybodaeth - pa mor gymwys ydi'r unigolyn/ cwmni, oes yna unigolyn neu gwmni arall yn bodoli. Soniwyd am roi sesiwn hyfforddiant i unigolion a chwmnïau sy'n rhoi cyngor i ymgeiswyr er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gofynion yn gysylltiedig â pharatoi Datganiad Iaith Gymraeg ac Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. Cytunwyd i wneud ymholiadau gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cynghorau & Mentrau Iaith;
- Cytuno bod angen diwygio'r testun er mwyn egluro bydd yr Awdurdodau yn ystyried capasiti'r safle cyfan ac yn ystyried yr effaith gronnol posib yn debyg i sut roddir ystyriaeth i drothwyon am dai fforddiadwy;
- Cytuno dylid diwygio'r testun i amlygu'r angen i ystyried ffynonellau eraill ac edrych i mewn i'r posibilrwydd o allu diweddaru'r Atodiad pan fo angen gwneud hynny;
- Nodi'r sylw ynglyn â chynnwys Atodiad 7;
- Cytuno bod angen hyrwyddo'r defnydd o enwau Cymraeg ac i edrych os ellir cryfhau'r neges yn y Canllaw.

Penderfyniad:

Yn ddarostyngedig i'r sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfarfod, bod y Panel yn cefnogi'r cyfeiriad a roddir yn y drafft cyntaf o'r dogfennau a gyflwynwyd.

## 7. RHAGLEN PARATOI CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL ERAILL - DIWEDDARIAD

Cyflwynwyd tabl yn amlinellu'r prif gamau a'r amserlen i baratoi'r gyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol. Nodwyd bod yr amserlen wedi cael ei newid i adlewyrchu capasiti o fewn yr Uned a threfniadau mewnol o fewn y ddau Gyngor.

Penderfyniad:

Nodwyd cynnwys y tabl.

DIWEDD Y CYFARFOD.